

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 6ed Mehefin, 2022**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 7.45 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Elin Hughes, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

15. CYFETHOL AELODAU NEWYDD

Cyflwynwyd adroddiad i dri chais ddod i law – dau yn gofyn am gael eu hail-ethol ac un o'r newydd.

Penderfynwyd cyfethol fel a ganlyn:

Ward Botwnnog	Carys H. Evans
Ward Sarn Mellteyrn	Siôn Williams
Ward Bryncroes	Iwan James Williams

Bydd y tri aelod 'nawr yn cael eu gwahodd i gyfarfod arferol o'r Cyngor ar 13eg Mehefin, 2022 pryd y bydd gofyn iddynt arwyddo i dderbyn y swydd a datgan eu bod am barchu'r Côt Ymddygiad.

Yn dilyn gair a Mel ab Owain o Un Llais Cymru deallwyd fod angen rhoddi rhybudd allan unwaith eto yn y Gymdeithas yn gwahodd aelod(au) o'r cyhoedd I ymgeisio am sedd ar Ward Bryncroes a Ward Botwnnog. Yn ôl ei gyfarwyddyd byddai wythnos o rybudd yn ddigonol.

Penderfynwyd rhoddi rhybuddion unwaith yn rhagor gan nodi'r dyddiad cau fel 13eg Mehefin, 2022.

16. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLYN AC EIFIONYDD

Cyfeiriodd Y Cynghorydd Michael Strain fod Pwyllgor yr Eisteddfod yn chwilio am wirforddolwyr ar gyfer Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod ddydd Sadwrn, 25ain Mehefin, 2022, a gofynnodd a fyddai unrhyw un yn barod i helpu.

Gadawyd hyn i bob unigolyn i benderfynu.

17. CAMP Y CYMRU YNG NGHWPAN Y BYD

Cyfeiriodd Y Cynghorydd Elin Hughes at gamp y Cymru dros y penwythnos a holodd tybed a ddylid ystyried gwneud rhywbeth o fewn y Gymdeithas i ddangos hynny.

Penderfynwyd rhoddi eitem ar raglen y cyfarfod nesaf i'w drafod.